COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DL234

Amseru Arferol

Teitl: Estyn Cytundeb Goleudy

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:
Fel yr amlinellir yng nghofnod penderfyniad DLl 189, mae CHTh wedi estyn y cytundeb blaenorol gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn darparu gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr. Daw'r estyniad presennol i ben ar 31 Mawrth 2022.

Mae cynllun gweithredu mewn grym ar hyn o bryd o dan reolaeth Heddlu Dyfed-Powys a Bwrdd Dioddefwyr a Thystion y BCTLl yn dilyn adolygiad annibynnol i wasanaeth dioddefwyr Goleudy, ynghyd â Phrosiect Gweithredu Dioddefwyr Heddlu Dyfed-Powys. Mae Goleudy hefyd yn gysylltiedig â chynllunio ar gyfer gweithredu'r prosiect Pen i Ben newydd, sy'n anelu i wella gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr.

Yn dilyn cyfres o drafodaethau, adolygiad o gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a gwerthusiad o ddangosyddion perfformiad, argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo estyniad pellach er mwyn dod â'r dyddiad dod i ben i 31 Mawrth 2023. Dylai cynllun gweithredu gyd-fynd â hyn (sydd wedi'i atodi i'r cofnod hwn).

Yn ystod y cyfnod hwn, ymgymerir ag archwiliad manwl o'r gwasanaeth, ynghyd â chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu, a ddefnyddir i hysbysu argymhellion ymhellach ar gyfer dyfodol y cytundeb hwn. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ystyriaethau perthnasol ar gyfer cysondeb gwasanaeth neu aliniad ar draws Cymru.

Argymhelliad:
Bod CHTh yn estyn y cytundeb presennol gyda Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer darpariaeth gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr i 31 Mawrth 2023.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 07/10/2021**

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Atodiad 1

Mae angen cynllun busnes ar gyfer Goleudy fel gwasanaeth, gan gynnwys:

1. Diben / gweledigaeth / nodau craidd Goleudy
2. Strwythur tîm a llywodraethu
3. Pwyntiau cyswllt
4. Strategaeth ddigidol – cyflenwi ar-lein/dros y ffôn yn erbyn wyneb yn wyneb. Swyddogaethau sgwrs/ar-lein – a yw'r rhain yn ddichonadwy? Pa wersi sydd wedi'u dysgu a'u mabwysiadu drwy COVID-19 ac ati? Oriau gwaith / agor.
5. Hyblygrwydd i reoli galw
6. Cynlluniau parhad e.e. trosiant staff ac ati.
7. Blaengynllunio rhagweithiol a chynigion mewn ymateb i dueddiadau – achosion busnes ac ati. (dioddefwyr sy'n blant, cam-drin domestig ac ati)
8. Ymagwedd/strategaeth bartneriaeth tuag at weithio mewn partneriaeth a chyd-leoli ac ati – gan ddefnyddio Goleudy fel canolfan ganolog cydlyniant dioddefwyr
9. Cynllun ac anghenion hyfforddi – cysylltiedig â'r Proffil Asesu Datblygiad ac ati
10. Polisi gwirfoddolwyr
11. Peryglon a lliniaru
12. Cynllun cyfathrebu/marchnata, gan gynnwys:
    a. Blaengynllun diwrnodau/wythnosau gweithredu lle bo'n briodol er mwyn hyrwyddo Goleudy
    b. Cytuno ar arwyddair ym mhob datganiad priodol i'r wasg a negeseuon eraill yn atgoffa'r cyhoedd am Goleudy a'r gwasanaeth sydd ar gael
    c. Gweithgarwch / trydarau parhaus sy'n hyrwyddo Goleudy – gweler y dangosyddion perfformiad allweddol isod

i. Hyrwyddo gwybodaeth gywir a diweddar ar gyfer Goleudy i'w chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol HDP a'r Hafan Ar-lein Unigol fel y bo'n briodol

ii. Goleudy i gyflawni 1 datganiad i'r wasg neu weithgarwch cyfryngau cymdeithasol fesul chwarter, gan gynnwys enghraifft astudiaeth achos o sut y gellir cynorthwyo dioddefydd